# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 27 Ionawr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy a/ac Jason McLellan (Cadeirydd).

Cynghorydd Meyirick Lloyd Davies, Arwel Roberts a/ac Julian Thompson-Hill yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Prosiect - NE Hub (JE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Hefyd yn bresennol - Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Mair, Y Rhyl - Gill Greenland.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ann Davies a/ac Alice Jones.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw aelod ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2015.

Materion yn codi:-

5. Ysgol Mair, Rhyl - Adroddiad Archwiliad Mewnol:- Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy a'r Cadeirydd nad oedd y cofnodion wedi adlewyrchu'r drafodaeth yn y cyfarfod, rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) fanylion y protocol o safbwynt darparu cofnodion nad yn gofnod llafar o'r drafodaeth. Eglurodd mai pwrpas y cofnodion oedd adlewyrchu teimlad y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai pryderon Aelodau'n cael eu cofnodi.

***(GW i weithredu)***

8. Cofrestr Risg Gorfforaethol: - Gofynnodd Mr P. Whitham pryd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael cyfle i ddylanwadu ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt rheoli risg. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y mater wedi ei drafod gan Gadeiryddion Archwilio a'r Grŵp Is-gadeiryddion yn Rhagfyr. Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y byddai Pwyllgor Archwilio Cymunedau'n cynnal gweithdy ar 4 Chwefror i ystyried y mater hwn a bod gwahoddiad i bob Aelod ei fynychu. O ran rheoli risg roedd Bwrdd Gweithredu ar gyfer y Ddeddf a byddai gwahanol ffrydiau gwaith yn cael eu nodi ac yn cael eu hystyried gan swyddogion yn Chwefror. Byddai'r materion hyn yn cynnwys sut byddai'r Pwyllgor Craffu'n ystyried sut i weithredu a monitro'r Ddeddf ac yn ystyried newidiadau posibl i dempledi adrodd er mwyn cynnwys gofynion y Ddeddf.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) ei fod yn rhagweld y byddai adroddiad yn cael ei baratoi ar yr elfen risg. Mewn ymateb i gais gan Mr Whitham, cytunwyd y byddai Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn darparu adroddiad diweddaru yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth o safbwynt rheoli risg, a chynnwys diddordebau ehangach y Pwyllgor o safbwynt y Ddeddf.

***(GW, AS i weithredu)***

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod, fod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

**RHAN II**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD –*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bod yr eitemau canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir hi ym Mharagraffau 14 ac 18 Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**5 YSGOL MAIR RHYL- CYNLLUN ADFER ARIANNOL**

Roedd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Archwilio Mewnol a oedd yn darparu manylion am Gynllun Adfer Ariannol (CAA) Ysgol Mair, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Dywedwyd wrth Aelodau gan fod Estyn ar fin cynnal Arolwg yn Ysgol Mair, nad oedd y Pennaeth yn gallu mynychu'r cyfarfod. Cynrychiolid yr ysgol gan Ms Gill Greenland, Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr, a diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i Ms Greenland am fynychu'r cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad ac eglurodd fod yr adroddiad Archwilio Mewnol yn Awst wedi tynnu sylw at ddiffyg ariannol yn Ysgol Mair, a bod angen i'r ysgol ddatblygu CAA cadarn. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn amodol ar weithredu CAA, fod Atodiad A, y Cynllun Gweithredu o fewn yr Arddodiad Archwilio wedi ei ddatblygu. Eglurwyd gan fod y CCA arfaethedig yn golygu lefel o newid sylweddol bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gydag Adnoddau

Dynol Strategol i drafod prosesau a gyda'r Adran Addysg i'w hysbysu o'r camau arfaethedig.

Rhoddodd Ms G. Greenland fanylion cefndirol a oedd yn berthnasol i'r ysgol, sef:-

- Nad oedd yr ysgol ar unrhyw adeg yn y gorffennol wedi bod mewn diffyg.
- Yn 2015 roedd gan yr ysgol gredyd o £11k.
- Roedd yn syndod bod diffyg o £42k wedi ei nodi.
- Roedd problemau wedi codi yn sgil ymddiswyddiad yr Ymgynghorydd Ariannol.
- Roedd y Dirprwy Bennaeth wedi cael ei symud i helpu ysgol yn Sir y Fflint.
- Roedd yr Esgobaeth wedi cytuno i hysbysebu swydd Pennaeth.
- Ni fyddai Dirprwy Bennaeth.
- Roedd yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig, ac roedd gan rai disgyblion ymddygiad heriol.
- Roedd yr Undeb wedi ei galw i mewn a chymorth wedi ei roi gan Adnoddau Dynol.
- Derbyniwyd gwahoddiad i ymweld ag ysgol ym Mochdre a oedd yn gweithredu heb Ddirprwy Bennaeth.
- Derbyniwyd cymorth a chyngor gan Reolwr Cyllid yr Ysgol.

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r ysgol am fynd i'r afael a meysydd pryder eraill a nodwyd ond pwysleisiodd yr angen i fynd ati i weithredu'r CCA.

Holodd y Cynghorydd P.C. Duffy  pam nad oedd y problemau ariannol hyn wedi eu nodi'n gynt, yn arbennig gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol. Eglurodd y Cynghorydd Duffy ei fod ar ddeall bod y polisïau a'r gweithdrefnau priodol eisoes wedi eu gweithredu i atal anomaleddau fel hyn. Teimlai Ms Greenland fod y prif broblemau yn deillio o'r ffaith bod Ymgynghorydd Ariannol yr Ysgol wedi gadael ei swydd. Mynegodd y Cadeirydd fod ysgol arall a oedd wedi wynebu anawsterau tebyg heb Ymgynghorydd Ariannol. Teimlai fod hwn yn fater y dylid edrych arno drwy'r Sir a phwysleisiodd yr angen i ddarparu cyngor a chanllawiau ariannol cadarn. Amlinellodd Pennaeth Archwilio Mewnol y newidiadau a oedd bellach wedi eu gweithredu i'r broses a phwysleisiodd bwysigrwydd rôl Rheolwyr Ariannol.

Eglurodd y Cynghorydd S.A. Davies nad oedd y gyd-ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol yn ofyniad statudol, ac awgrymodd y gellid arbed arian sylweddol drwy beidio â darparu'r cyfleuster yma. Teimlai fod angen gwell a rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yr ysgol ac y byddai'n fuddiol.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at broblemau blaenorol a oedd wedi deillio o ddiffyg rheolaeth ariannol briodol, a phwysleisiodd yr angen i edrych ar themâu a thueddiadau posibl a oedd yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro. Pwysleisiodd yr angen am sicrwydd fod trefniadau ariannol a mecanweithiau priodol yn eu lle rhag i hyn ddigwydd eto yn y dyfodol. Amlinellodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill rôl Rheolwyr Clwstwr Ariannol a oedd yn gyfrifol am dynnu sylw at broblemau posibl i'r Cyrff Llywodraethu dan sylw. Eglurodd Ms Greenland nad oedd Ysgol Mair yn rhan o Glwstwr Ariannol yn Rhyl ac awgrymwyd efallai bod hyn wedi cyfrannu at yr anomaleddau dan sylw.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i fynd i'r afael â mater Monitro Ysgol Mair. Byddai hynny'n cynnwys trafodaethau gydag Adnoddau Dynol, ynglŷn â materion staffio o ran y CAA, a gosod amserlenni er mwyn adrodd yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Atgoffodd Pennaeth Archwilio Mewnol Aelodau fod y CAA yn Gynllun dwy flynedd. Amlinellodd swyddogion yr wybodaeth ar gyfer monitro'r CAA gan y Swyddog 151 a'r Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau. Amlinellodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y rolau cylch gorchwyl a monitro a wnaed gan Grŵp Monitro Safonau Ysgol a'r Fforwm Cyllideb Ysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor y broses fonitro a chytunwyd gofyn i Reolwr Ariannol yr Ysgol, Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau a'r Pennaeth fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym Medi 2016 i ddarparu adroddiad cynnydd o safbwynt gweithredu'r CAA.

O ran y mecanweithiau monitro cytunwyd i ail-edrych ar y broses Archwilio Mewnol ar gyfer cyllid yr ysgol, a bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg copïau i Aelodau'r Pwyllgor. Cytunwyd y gellid cyflwyno sylwadau Aelodau i gyfarfod y pwyllgor fis Mawrth, 2016 a chyfeirio'r mater i Gadeiryddion Archwilio a'r Grŵp Is-gadeiryddion i'w trafod.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynglŷn â diffyg cefnogaeth a chyfraniad canfyddedig yr Esgobaeth cytunwyd bod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS)yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i dynnu sylw at y materion a'r pryderon canlynol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Fod y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad am CAA o safbwynt un o'u hysgolion.
- Gofyn i ba raddau y mae'r Esgobaeth yn darparu cefnogaeth a chyngor i ysgolion ac yn cynorthwyo gyda materion ariannol.
- Gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r hysbyseb am swydd yn yr ysgol.
- Darparu manylion unrhyw faterion pryder eraill y maen nhw o bosibl yn ymwybodol ohonynt, o ran Ysgol Mair neu unrhyw ysgol Esgobaeth arall yn y Sir.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD** – bod:-*

*(a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad*
*(b) gofyn i Reolwr Ariannol yr Ysgol, Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau a'r Pennaeth fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym Medi 2016 i ddarparu adroddiad cynnydd o safbwynt gweithredu'r CAA Pennaeth Archwilio Mewnol Pwyllgor.*
*(c) cyflwyno sylwadau Aelodau i gyfarfod y pwyllgor fis Mawrth, 2016, a bod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg copïau i Aelodau'r Pwyllgor.*
*(d) Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) yn ysgrifennu at yr Esgobaeth i dynnu sylw at y materion a'r pryderon canlynol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.*
***(GW, IB, RW i weithredu)***

**Ar y pwynt hwn aeth y cyfarfod yn ôl i RAN I**

## 6 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

Rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill, gyda chymorth y Prif Gyfrifydd, grynodeb manwl o'r adroddiad. Roedd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:-

- Cyflwynwyd y cynnydd diweddaraf o ran y broses o osod y gyllideb i Weithdy Cyllideb yr Aelodau ar 14 Rhagfyr 2105. Amlinellwyd y gwahanol gynigion a ystyriwyd i sicrhau arbedion.
- Cyhoeddwyd cyllideb drafft a Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn ddiweddarach eleni o ganlyniad i amseru Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd hyn wedi ei gynnwys yn y broses cynllunio'r gyllideb ac wedi arwain at gyflwyno pecyn o gynigion i'w cymeradwyo yn Rhagfyr. Roedd y pecyn yn dod i gyfanswm o £1.2m ac yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ac addasiadau technegol, ond nid oedd yn cynnwys cynigion i dorri ar wasanaethau na chynyddu taliadau.
- Roedd goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015/16 wedi ei grynhoi yn yr adroddiad, gyda'r Setliad yn llawer gwell na'r disgwyl.
- Roedd adroddiad i'r Cyngor yn Rhagfyr wedi manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ac roedd tybiaethau'n dangos bod bwlch o £2m, yn y gyllideb o hyd. Darparwyd manylion yng ngweithdy'r gyllideb ac roedd crynodeb wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Hefyd roedd manylion am y newidiadau i werth y Setliad, a oedd yn caniatáu cynnig i ostwng lefel y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 2.75% i gyfartaledd o 1.5%, wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Roedd y tybiaethau hyn wedi arwain at sefyllfa ariannol gadarnhaol o £480k, gyda'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn well na'r disgwyl am un flwyddyn. Darparwyd tabl yn crynhoi sefyllfa cynllunio'r gyllideb ar gyfer y dyfodol. Amlinellwyd manylion y risgiau, ynghyd â'r camau i'w gweithredu er mwyn eu lliniaru.
- Ni fyddai Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi tan fis Mawrth. Fodd bynnag, roedd sicrwydd wedi ei roi na ddylid gweld unrhyw symudiad negyddol rhwng gwerthoedd y Setliad Drafft Dros Dro a'r un Terfynol Byddai cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru'n cael ei chyflwyno i'r Senedd ar 8 Mawrth.
- Roedd y broses Rhyddid a Hyblygrwydd wedi dod i ben drwy osod cyllideb 2016/17. Byddai'r gwaith o fonitro perfformiad y gyllideb yn parhau i gael ei adrodd i'r Cabinet, gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn yn monitro effaith penderfyniadau'r gyllideb.
- Cadarnhawyd y byddai proses gyllidebol newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2017/18.
- Cyflwynwyd cam terfynol y broses gyllidebol ddwy flynedd Rhyddid a Hyblygrwydd. Mwyafrif helaeth yr arbedion, dros 80%, oedd effeithlonrwydd neu arbedion moderneiddio gan arwain at effaith lai sylweddol ar wasanaethau i'r cyhoedd.
- Eglurwyd mai nod y broses gyllidebol oedd sicrhau bod y Cyngor yn darparu cyllideb gytbwys. Roedd yn debygol y byddai gostyngiad i gyllid ALl yng Nghymru'n

parhau yn y tymor canolig, gyda phenderfyniadau cyllidebol yn dod yn anos ac yn galw am amser paratoi hirach.

Amlinellodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr amserlenni ar gyfer y broses adrodd ar y gyllideb a gofynnodd am arweiniad ynglŷn â phryd i gyflwyno adroddiadau ar gyfer y dyfodol. Teimlai'r Cadeirydd y byddai o fudd pe bai'r broses bresennol o gynnwys eitem fusnes safonol ar gyfer proses y gyllideb ar bob rhaglen y Pwyllgor, yn parhau, ynghyd â darparu Gweithdai Cyllideb i Aelodau. Teimlai hefyd fod angen ymgynghori mwy â'r cyhoedd a chydnabu fod gwahanol safbwyntiau ynglŷn â mabwysiadu proses ymgynghori newydd. Awgrymwyd a chytunwyd i gysylltu â'r Grwpiau Gwleidyddol dan sylw er mwyn annog Aelodau i gyflwyno eu barn a'u hawgrymiadau ynglŷn â'r broses gyllidebol. Mynegodd y Cynghorydd S.A. Davies ei gefnogaeth i barhau â'r broses bresennol, a thynnodd sylw at yr angen a phwysigrwydd archwilio'r mecanweithiau a fabwysiadwyd. Roedd Mr P. Whitham yn cefnogi'r farn a fynegwyd ac awgrymodd y gallai peidio â pharhau i sicrhau cynnydd beri risg gorfforaethol i'r Awdurdod.

Amlinellodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y materion a'r cyfyngiadau technegol posibl a allai godi gyda'r sefyllfa ariannol o safbwynt datblygu Bil Llywodraeth Leol (Cymru), ac uno Awdurdodau Lleol yn sgil hynny.

Awgrymodd Mr P. Whitham gan fod yr adroddiad yn cyflwyno cam terfynol y broses gyllidebol ddwy flynedd Rhyddid a Hyblygrwydd, y dylid cynnal adolygiad i ganfod nodau, cyflawniadau, llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o ran helpu i sicrhau cynnydd yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn a oedd yn monitro penderfyniadau'n gysylltiedig â'r gyllideb a wnaed fel rhan o'r broses. Cyflawnwyd hyn drwy gasglu tystiolaeth ac archwilio'r mecanweithiau a ddefnyddiwyd ac a fabwysiadwyd.

***PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar y diweddariad diweddaraf.*
*(b) gofyn i'r Grwpiau Gwleidyddol annog Aelodau i gyflwyno eu barn, a*
*(c) chytuno bod adroddiad diweddaru pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2015.*

***(RW, SG, GW i weithredu)***

## 7 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Atodiad 1, yn dangos sut fyddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau yn y flwyddyn i ddod, ac yn gosod y polisïau y mae'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn seiliedig arnynt. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus. Roedd Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys, Atodiad 2, yn rhoi manylion am weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16.

Eglurwyd bod y ffigyrau yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn ffigyrau drafft ac y bydden nhw'n cael eu diweddaru cyn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf a Chynllun Busnes Stoc Tai yn Chwefror, 2016.

Yn ôl Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA, roedd yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus bob blwyddyn. Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2016.

Byddai'r Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ddwywaith y flwyddyn a byddai Rheoli'r Trysorlys yn edrych ar ôl arian y Cyngor, a oedd yn rhan hollbwysig o waith y Cyngor, gan fod tua £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn. Ar unrhyw adeg roedd gan y Cyngor o leiaf £10m o arian felly roedd angen sicrwydd bod yr adenillion gorau posibl yn cael eu sicrhau heb risg ariannol, sef y rheswm pam fod arian yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o gyrff ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor oedd:-

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- sicrhau bod modd cael yr arian yn ôl pan oedd ei angen (hylifedd);
- sicrhau eu bod yn cael adenillion boddhaol (arenillion).

Roedd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod terfynau ar weithgaredd Rheoli Trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod benthyciadau'r Cyngor yn fforddiadwy.

O ran y Dangosyddion Darbodus, roedd dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y ceisiadau cyfalaf arfaethedig diweddaraf a'r dyraniadau bloc, a byddai'r rhain yn cael eu diweddaru cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 23 Chwefror 2016.
Roedd dangosyddion Cyfrif Refeniw Tai wedi eu cyfrifo ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf o Gynllun Busnes y Stoc Tai, ond byddent yn cael eu diwygio cyn eu cyflwyno i'r Cyngor unwaith y byddai wedi cytuno ar Gynllun Busnes terfynol y Stoc Tai. Roedd y Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 Atodlen A.

Tynnodd y Prif Gyfrifydd sylw Aelodau at y meysydd canlynol yn Atodiad 1:-

- Datganiad Darpariaeth Refeniw Gofynnol
- Cymhareb Cronfa'r Cyngor
- Gofyniad Cyllid Cyfalaf a chyfanswm dyledion
- Goblygiadau'r elfen PFI a lleihad arian a ddelir
- Parti i Gontract Buddsoddiad a Gymeradwyir a Therfynau
- Gofynion Hyfforddiant

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies, rhoddodd y Cynghorydd Thompson-Hill a'r Prif Gyfrifydd fanylion trefniadau benthyca presennol a hanesyddol, cyfraddau a chostau'r Cyngor.

Tynnwyd sylw gan Mr P. Whitham at y mater o ddarparu Hyfforddiant i Aelodau fel y cyfeirir ato ar Dudalen 38, 8.1.1 o Atodiad 1. Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS)at y gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd ar gyfer darparu hyfforddiant, ac eglurodd bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r Aelodau dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn deall y prosesau perthnasol. Cytunodd Aelodau fod sesiwn hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei chynnal 30 munud cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys eitem fusnes yn ymwneud â Rheoli'r Trysorlys, a bod pob Aelod yn cael ei wahodd i'r sesiwn.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a gyflwynwyd gan Mr P. Whitham:-

- Cytunwyd y byddai manylion pellach ynglŷn â diddymu'r PWLB yn cael eu darparu pan fydden nhw ar gael.
- Cadarnhawyd bod trefniadau bancio'r Cyngor yn amodol ar y Strategaeth Gaffael.
- Cyflwynwyd yr adroddiad ar Fonitro Cyfalaf i'r Cabinet.
- Gellid cynnwys manylion ynglŷn â gweithredu REPOs yn sesiwn Hyfforddiant Aelodau ym Medi, 2016, ar ôl derbyn ac egluro manylion.
- Byddai'r Adolygiad Archwilio a fyddai'n ei gynnal yn Chwefror, 2016, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ebrill 2016.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

*(a) Derbyn a nodi'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 (Atodiad 1).*
*(b) Nodi adroddiad diweddaru Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2).*
*(c) Cytuno bod sesiwn hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys yn cael ei ddarparu a bod pob Aelod yn cael ei wahodd.*
*(d) Gofyn am fanylion pellach ynglŷn â diddymu'r PWLB pan fyddent ar gael.*
*(e) Cytuno bod yr Adolygiad Archwilio a gynhelir yn Chwefror 2106 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ebrill 2016, a*
*(f) Gofyn am gynnwys fanylion ynglŷn â gweithredu'r REPOs yn sesiwn Hyfforddiant Aelodau ym Medi, 2016.*

***(RW, SG, IB i weithredu)***

## 8 ADRODDIAD HUNAN WERTHUSO'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cytunodd Aelodau gan fod rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn absennol, a nes bod Aelod wedi ei benodi i'r lle gwag ar y Pwyllgor, y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio nes byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod ym Mawrth, 2016.

Cytunodd Pennaeth Archwilio Mewnol i anfon e-bost at Aelodau'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd a diddordeb yr eitem hon i Aelodau newydd y Pwyllgor.

Cytunodd Aelodau fod cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a oedd i'w gynnal ar 16 Mawrth, 2016 yn dod ynghyd 30 munud yn gynt na'r hyn a drefnwyd, am 9.00 a.m. er mwyn ystyried yr eitem fusnes hon.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) Gohirio'r eitem a'i hystyried cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mawrth, 2016.*
*(b) bod y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 16 Mawrth, 2016 yn dod ynghyd 30 munud yn gynt na'r hyn a drefnwyd, am 9.00 a.m. er mwyn ystyried yr eitem fusnes hon, a*
*(c) bod Pennaeth Archwilio Mewnol i anfon e-bost at Aelodau'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd a diddordeb yr eitem hon i Aelodau newydd y Pwyllgor.*

***(IB a GW i weithredu)***

**9 RHEOLI FFLYD GORFFORAETHOL – ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Roedd adroddiad gan Bennaeth Archwilio Mewnol, ar adroddiad Archwilio Mewnol diweddar i Reoli Fflyd Gorfforaethol wedi cael sgôr sicrwydd 'Isel', wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar yr adroddiad Archwilio Mewnol, a bod yn gytûn ynglŷn â'r sicrwydd fod y Cynllun Gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Cadarnhaodd fod y rhan fwyaf o'r gwaith a nodwyd wedi ei gwblhau a rhoddodd amlinelliad byr o'r adroddiad Archwilio Mewnol Llawn a oedd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Roedd y prif faterion a oedd yn codi wedi eu crynhoi yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod 'cyfarfod uwchgyfeirio' wedi ei gynnal cyn cyflwyno'r adroddiad archwilio terfynol gyda Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Arweinydd Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr i drafod yr adroddiad archwilio a chytuno ar Gynllun Gweithredu.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy ynglŷn â phwysigrwydd cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol ei fod wedi egluro yn y cyfarfod blaenorol na fyddai'n bosibl oherwydd amserlenni i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r cyfarfod hwn, a chytunwyd i'w ddiweddaru ar lafar.

Cadarnhaodd Rheolwr Prosiect (Hwb Gogledd Ddwyrain) (PMNEH) fod cynnydd wedi ei gymysgu â rhai problemau yr oedd angen rhoi sylw iddynt o hyd er nad oeddent yn risg sylweddol i'r Awdurdod, gan gyfeirio'n benodol at lefel y gwaith yn ymwneud â thargedau'r gwasanaeth gwastraff.

Eglurodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod yr adroddiad dilynol cyntaf wedi ei baratoi'n ddiwedda iawn a'u bod yn disgwyl am ymateb. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod y Polisi Cludiant yn cael ei adolygu ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain. Ar gais Aelodau cytunwyd y byddai copi o'r Polisi Cludiant yn cael ei gylchredeg a'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, 2016.

Yn sgil trafodaeth bellach:

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.*
*(b) Bod adroddiad diweddaru'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth, a*
*(c) bod copi o'r Polisi Cludiant yn cael ei gylchredeg yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth.*
***(IB, JE i weithredu)***

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (wedi ei chylchredeg ymlaen llaw) i'w hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

23 Mawrth, 2016:-

- Bod cyfarfod y Pwyllgor fis Mawrth yn dod ynghyd 30 munud yn gynt nag a drefnwyd, am 9.00a.m. er mwyn ystyried Adroddiad Hunan Werthuso'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad i'w gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Mawrth, er mwyn rhoi diweddariad ar reoli risg a diddordebau ehangach y Pwyllgor o ran gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

27 Ebrill, 2016:-.

- Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS) y byddai'r gweithdy a drefnwyd i ystyried y Cyfansoddiad bellach yn cael ei aildrefnu. Cytunodd Aelodau i gynnwys yr eitem fusnes am y Cyfansoddiad yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor yn Ebrill 2016.

Cytunodd Aelodau fod Pennaeth Archwilio Mewnol yn cylchredeg adroddiad gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor o safbwynt rheolaeth ariannol Ysgol Mair, Rhyl. Cytunwyd i anfon unrhyw bryderon gan Aelodau'r Pwyllgor at y Cadeirydd neu Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (HLHRDS).

Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai adroddiad pellach am Ysgol Mair, Rhyl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym Medi, 2016.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

***(GW, AS, IB, CW i weithredu)***

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.